

Gwers 31 – Y ferch a ddaeth yn ôl yn fyw

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 8:40–42;49–56

Yn dilyn tawelu'r storm, dywed Luc wrthym fod Iesu wedi croesi'r môr i wlad y Geraseniaid, sef ardal y Cenedl-ddynion, yn y Decapolis (neu'r Deg Dinas) i'r de-ddwyrain o fôr Galilea. Dinasoedd Groegaidd a hunan llywodraethol oedd y Decapolis, sy'n egluro pam yr oedd moch yn pori ar y mynyddoedd. Roedd moch i'r Iddew yn halogedig ond 'doedd gan y Groegaidd ddim problem gyda'r anifail hwnnw.

Ar ôl iachau'r dyn â chythreuliaid ynndo, dychwelodd Iesu i Galilea a chafodd groeso mawr oherwydd 'yr oedd pawb yn disgwyl amdano' (Luc 8:40). Yn y dyrfa yr oedd gŵr o'r enw Jairus. 'Yr oedd ef yn arweinydd yn y synagog' (Luc 8:41). Jairus fyddai'n gyfrifol am drefnu gwasanaethau'r synagog, dewis y sawl a fyddai'n arwain y gweddïau, yn darllen o'r Ysgrythur a phregethu. Yr oedd Jairus, felly, yn aelod amlwg o'r gymuned. Syrthiodd Jairus o flaen Iesu ac ymbil arno i ddod i'w gartref oherwydd bod ei unig ferch yn marw. Y mae'r cymal 'unig ferch' yn awgrymu mai hi oedd unig blentyn Jairus, ac yr oedd yn ddeuddeng mlwydd oed. Yn wahanol i Marc nid yw Luc yn cyfeirio at gais penodol gan y tad am iachâd ond gellir cymryd fod hynny'n ymhlwg yn ei eiriau. Yn ôl Mathew fodd bynnag, roedd y ferch wedi marw (Mathew 9:18), ond efallai mai ei ffurf dalfyredig sy'n gyfrifol ac nad yw'n gwrthddweud Marc a Luc. Y mae'r ddau olaf yn cyfeirio at negesydd yn dod gyda'r newydd fod y ferch wedi marw.

Erbyn i Iesu gyrraedd y tŷ roedd cyfnod y galaru wedi dechrau, a phan ddywedodd Iesu, 'Peidiwch ag wylo: nid yw hi wedi marw' (Luc 8:52), 'Dechreuasant chwerthin am ei ben' (Luc 8:53). Yn ôl Marc, dywedodd Iesu wrth y ferch 'Talitha cwm' (Marc 5:41), sef cyfarchiad Mam i'w phlentyn yn y bore yn yr iaith Aramaeg; mae Luc yn dilyn ei arferiad o gyfieithu'r Aramaeg i'r Groeg.


Fel yr oedd pobl yn rhyfeddu at ddysgeidiaeth Iesu, ac at ei awdurdod dros gythreuliaid (Luc 5:20), synnodd rhieni'r ferch at ei awdurdod dros farwolaeth.

Y Synagog

Pan oedd pobl Israel ym Mabilon, llwyddasant i oroesi trwy gyd-gyfarfod ar y Sabbath. Oherwydd bod yr arferiad hwnnw mor llwyddiannus, bu iddynt barhau i gyfarfod ar ôl dychwelyd i'w mamwlad. Os oedd deg oedolyn gwryw yn y gymuned adeiladwyd 'synagog', ac erbyn dyddiau Iesu, roeddent yn olygfeydd cyfarwydd yn y wlad. Dynion yn unig oedd â'r hawl i fynd i mewn drwy'r prif ddrws tra'r oedd drws ar gyfer y merched yng nghefn y synagog yn arwain at oriel. Yn arferol, mewn gwasanaeth, cenid Salmau, darllenwyd o'r Ysgrythur, ac yn dilyn y bregeth roedd cyfnod o holi ac ateb.

Marwolaeth a galaru

Dilynid marwolaeth person gan gyfnod o wylo a dolefain. Byddai'r dolefain yn hysbysu'r gymdogaeth agos fod rhywun wedi marw. Byddai teuluoedd cyfoethog yn hurio galarwyr proffesiynol er mwyn cynnyddu'r sŵn. Oherwydd gwres y dydd rhaid oedd cynnal yr angladd ar fyrder ond byth ar y Sabbath neu ddydd gŵyl. Ar ôl golchi'r corff a'i amdroi mewn lliain, fe'i cludwyd ar stretsier a'i roi mewn bedd wedi ei naddu yn y graig. Seliwyd ceg yr ogof gyda charreg gron fawr.



Roedd merch Jairus yn wael iawn. Pwy fyddai'n gallu helpu? Aeth Jairus i chwilio am Iesu, ond, o diar, bu farw'r ferch cyn iddynt gyrraedd yn ôl. Aeth Iesu at y ferch, a dywedodd wrthi am godi – a dyna beth a wnaeth. Does dim rhyfedd bod y teulu bach mor hapus!

Lliwia'r llun a chofia rhoi cegau hapus i Jairus a'i ferch a'i wraig.

Diolch Iesu am iacháu'r ferch yn yr hanes a gwneud pawb yn hapus eto.

Diolch dy fod gyda ni pan fyddwn yn drist. Amen.

Gwers 31 – Y ferch a ddaeth yn ôl yn fyw



Jairus a'i ferch | Beibl Newydd y Plant tud. 164

(Marc 5:21–43)

Gwers 31

Y Ferch a ddaeth yn ôl yn fyw

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y Ferch a ddaeth yn ôl yn fyw tud
132

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

'Amser Codi' tud 100

BEIBL LLIW Y PLANT

Merch Jairus tud 222

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Jairus a'i ferch tud 164

BEIBL BACH I BLANT

Iesu a'r Eneth Fach tud 350

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Codi o farw tud 316

BEIBL LLIW Y TEULU

Merch Jairus (252) tud 134

Amser Chwarae

Bydd angen bag doctor plant.

Dangoswch y bag i'r plant, a gofynnwch a oes gan rywun un adref. Edrychwch ar gynnwys y bag gyda'ch gilydd, gan wahodd un plentyn ar y tro i estyn eitem o'r bag. Efallai bydd gan y plentyn syniad am sut i ddefnyddio'r teclyn, os ddim, esboniwch sut mae'r eitem yn cael ei defnyddio.

Trafodwch gyda'r plant beth fyddwn yn ei wneud pan fyddwn yn sâl: mynd i'r gwely, cymryd moddion, gweld y doctor neu fynd i'r ysbyty. Rhowch gyfle i'r plant i rannu eu profiadau – mae'n siŵr bydd ganddynt ddigon o friwiau i ddangos!

Eglurwch fod Iesu wedi gwella llawer o bobl sâl, a hyd yn oed wedi rhoi bywyd i ddau berson a oedd wedi marw!

Amser Stori

Bydd angen dau blât papur a sgrapiau o bapur lliwgar i greu wyneb, a glud.

Darllenwch yr hanes o Feibl Newydd y Plant.

Wedyn, cymerwch y plât cyntaf a chreu wyneb trist Jairus arno, gyda chymorth y plant. Gofynnwch i'r plant a ydynt yn cofio pam oedd Jairus yn drist? Ail adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun – sut y bu Jairus yn chwilio am Iesu a gofyn am ei gymorth, gan gredu y byddai Iesu'n gallu gwella ei ferch. Disgrifiwch dristwch Jairus wrth iddo glywed bod ei ferch wedi marw. Treuliwch amser yn creu wyneb hapus gyda'r plant gan eu hatgoffa sut y bu i Iesu gyrraedd cartref Jairus a siarad gyda'i ferch a dod â hi yn ôl yn fyw. Eglurwch fod Iesu'n gallu gwneud pethau rhyfeddol – pethau doedd neb arall yn medru eu gwneud – oherwydd mai Mab Duw ydoedd ac roedd yn ddyn arbennig iawn!

Crefft

Cerdyn Brysia Wella

Bydd angen cerdyn ac amlen ar gyfer pob plentyn, offer addurno.

Anogwch y plant i feddwl am rywun sy'n sâl a'u helpu i ysgrifennu neges syml iddynt yn y cerdyn.

Addurno bisgedi

Bydd angen bisgedi plaen, eisin, platiau, cyllell, pethau bwydadwy i greu wynebau, bagiau i gario'r bisgedi adref.

Rhowch dwy fisged i bob plentyn – ond efallai bydd yn haws i drin un ar y tro. Cynorthwywch y plant i daenu eisin ar draws y fisged ac i greu wyneb trist arno. Wedyn, ar yr ail fisged, creu wyneb hapus. Trafodwch pam oedd Jairus yn drist a beth ddigwyddodd i'w wneud yn hapus.

Gweddi

Defnyddiwch y ddau blât o'r Amser Stori. Dangoswch y wyneb trist a gofyn i'r plant beth sy'n eu gwneud yn drist. Defnyddiwch eu syniadau yn eich gweddi, gan ofyn i Dduw ein helpu pan fyddwn yn drist. Dangoswch yr wyneb hapus a gofyn i'r plant beth sy'n eu gwneud yn hapus. Eto, defnyddiwch eu syniadau mewn gweddiâu o ddiolch i Dduw.

Adnoddau Ychwanegol

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C – Mwy o wyrthiau

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 43: Iesu a'r eneth fach

Llyfrau Stori

Y Ferch a iachawyd gan Iesu
Merch Fach Jairus

Tŷ'r ferch oedd yn marw

